

Cynhadledd Tân Gwylt y DU 2019

Galwad am Gyflwyniadau a Phosteri

Cefndir i'r alwad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n cynnal Cynhadledd Tân Gwylt y DU 2019 ar yr 20^{fed} a'r 21^{ain} o Dachwedd 2019 yn Stadiwm Principality, Caerdydd, CF10 1NS. Cefnogir y digwyddiad gan Fforwm Tân Gwylt Lloegr a Chymru, Fforwm Tân Gwylt yr Alban, y Sefydliad Tân Gwylt Ewropeaidd a Chylchgrawn Fire Times.

Bydd y gynhadledd deuddydd o hyd yn canolbwyntio ar thema 'Rheoli'r Tanwydd - Lleihau'r Risg' a bydd yn tynnu ynghyd rheolwyr tir, gwasanaethau tân ac achub, ymchwilwyr academiaidd, sefydliadau amgylcheddol, cynllunwyr a gwneuthurwyr polisi sydd ynghlwm ag (i) atal, lliniaru a mygu tanau gwylt, (ii) rheoli tanau gwylt a thanau penodedig, a (iii) gwerthuso effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol tân, o fewn y DU a thramor ill dau. Bydd y digwyddiad yn arddangos datrysiadau ymarferol a gafodd eu hysbysu gan y wybodaeth a'r profiad gorau o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

Gwahoddir cynigion ar gyfer papurau a phosteri nawr gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn tanau gwylt, p'un ai'n ymarferydd neu'n ymchwilydd, o du fewn a thu allan i'r DU. Nodir rhai pynciau awgrymedig ar gyfer cyflwyniadau a phosteri isod, ond mae gan drefnwyr ddiddordeb mewn unrhyw gyfraniadau a all arddangos cyswllt clir â rheoli tanau gwylt neu danwydd:

- Dulliau rheoli tanwydd tanau gwylt
- Tân rhagnodedig fel arf i reoli tirweddau sy'n agored i dân
- Gweithgareddau cynllunio a pharodrwydd Tân Gwylt
- Tân Gwylt a newid hinsawdd
- Cydweithio a chydweithredu ar gyfer lleihau risg tanau gwylt
- Cynllunio a chreu polisiau gogyfer tanau gwylt
- Agweddau cymdeithasol ac economaidd tanau gwylt a'u rheolaeth

Buddion cyflwyno yn y digwyddiad hwn

Fel y gynhadledd tân gwylt aml-asiantaeth mwyaf yn y DU yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd y cyfarfod dwyflynyddol hwn yn rhoi cyfle delfrydol i gyfranddalwyr o bob sector rhyngweithio a chyfnewid syniadau ac arferion da. Mae'r digwyddiad yn cynrychioli cyfle unigryw i rannu cipolwg newydd, ymchwil blaen y gad a gwaith cydweithredol ar faterion sy'n ymwneud â hydwythedd tân gwylt. Yn fwy penodol, bydd cyflwyno cyflwyniad neu ddarparu poster yn y digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i chi:

- drafod arferion gorau ag eraill

- parthed datblygiad gyrfa - i arddangos eich arbenigedd a'ch profiad i eraill
- i gasglu adborth ar eich syniadau, arferion a'ch prosiectau ymchwil – efallai gall hwn eich helpu i orchfygu problem neu awgrymu maes gwaith neu ymchwil newydd
- i rwydweithio a chael cyfle i greu cysylltiadau newydd

Sut i gyflwyno cynnig cyflwyniad neu boster

Gwahoddir awduron i gyflwyno eu cynigion erbyn y **15^{fed} o Fai 2019**. Cyflwynwch eich cynnig drwy law e-bost at

Hysbysir awduron os derbyniwyd eu cynnig erbyn y **15^{fed} o Orffennaf 2019**.

A fyddwch cystal â nodi bydd rhaid i bob cynnig fod ar ffurf tudalen sengl, gan ddarparu:

- teitl y gwaith,
- enw(au) a chysylltiad(au)/sefydliad(u)'r awdur(on),
- echdyniad o ddim mwy na 250 o eiriau,
- rhestr o 3-6 gair allweddol,
- math dewisol eich cyflwyniad (ar lafar neu boster). A fyddwch cystal â nodi efallai na fydd amserlen y gynhadledd yn caniatáu i ni gwrdd â gofynion pob cais am gyflwyniad llafar.

A fyddech cystal â dilyn y templed echdyniad a ddarparwyd.

Disgwylir i bapurau fod o 20 munud ynghyd â 5 ar gyfer cwestiynau. Bydd sesiynau wedi'u hamserlenni ar gyfer poster.

Gwybodaeth Bellach

Am wybodaeth bellach neu eglurhad ynghylch yr alwad hon, e-bostiwch:

FfTGCLI2019@decymru-tan.gov.uk